**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**8 RHAGFYR 2021**

**CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG - DRAFFT**

**ADRODDIAD GAN Y CYFARWYDDWR ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi trosolwg i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Drafft y Cyngor yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar â'r cyhoedd. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn a'r Cynllun Strategol Arfaethedig a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2021 i'w gweld yn Atodiad A, er gwybodaeth i aelodau.

## 2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion:

2.1 Yn dilyn trafodaeth yr aelodau o'r adborth a gasglwyd o'r ymgynghoriad â'r cyhoedd ynglŷn â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft y Cyngor, bod y Grŵp Llywio'n rhoi adborth i'r Cabinet mewn perthynas â'r Cynllun Strategol arfaethedig cyn i'r Cabinet ei drafod ar 13 Rhagfyr 2021.

## 3 RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Yr angen i roi diweddariad i aelodau'r Grŵp Llywio ynglŷn â deilliannau'r ymgynghoriad, a'r newidiadau dilynol i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Drafft, cyn iddo gael ei drafod gan y Cabinet.

## 4. CEFNDIR

4.1 Mae'r aelodau'n effro i'r ffaith fod y Cyngor wedi gosod targed uchelgeisiol i gynyddu canran y disgyblion Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

4.2 Mae'r Cynllun Strategol arfaethedig, yn nodi'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd dros y deng mlynedd sydd i ddod i gyflawni'r targed yma erbyn 2032.

4.3 Er mwyn cyrraedd y targed erbyn 2032, rhaid i'r Cyngor, ynghyd â swyddogion o nifer o grwpiau a sefydliadau allanol sy'n ffurfio Grŵp Strategol y Cynllun Strategol weithio ar y cyd i gyflawni'r targedau uchelgeisiol hyn. Yng nghyfarfod y Cabinet ar 20 Gorffennaf 2021, cytunodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Strategol drafft i roi'r cyfle i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid i ofyn am eu barn ynglŷn â chyflawni'r targed uchelgeisiol hwn.

4.4 Rhoddodd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Strategol drafft gyfle i holl randdeiliaid y Cyngor gyfrannu at y broses o roi adborth. Yn ogystal â hynny, yn unol â'i gylch gorchwyl, roedd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn rhan o'r broses ymgynghori yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf, ynghyd ag aelodau'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc yn unol âr gylch gorchwyl, yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2021.

4.5 Mae'r adborth a ddarparwyd gan yr holl randdeiliaid yn rhan o'r broses ymgynghori wedi'i ymgorffori'n rhan o Adroddiad Ymgynghori Statudol a'r Cynllun Strategol arfaethedig wedi'i ddiweddaru. Bydd y rhain yn cael eu trafod gan y Cabinet ar 13 Rhagfyr yn rhan o'i drafodaeth ffurfiol ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg arfaethedig y Cyngor. Mae copi o'r adroddiad drafft i'w gyflwyno i'r Cabinet a'r Cynllun Strategol arfaethedig wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

4.6 Cyn iddo gynnal ei drafodaeth a gwneud penderfyniad, hoffai'r Cabinet glywed adborth a sylwadau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft.

## 5. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH/DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

5.1 Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (gyda Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol) ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i'w weld yn Ychwanegiad 3 yn Atodiad 1.

## 6. GOBLYGIADAU'R GYMRAEG

6.1 Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft i'w weld yn Ychwanegiad 4 yn Atodiad 1

## 7. YMGYNGHORI / CYFRANNU

7.1 Roedd y Cynllun Strategol drafft yn destun ymgynghoriad cynhwysfawr â'r cyhoedd gydag ystod eang o randdeiliaid am gyfnod o wyth wythnos. Yn ogystal â hyn, bu'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn craffu arno.

7.2 Mae'n anochel y bydd yr amgylchiadau presennol yn cyfyngu ar gyfleoedd ymgysylltu wyneb yn wyneb. Serch hynny, bydd y Cyngor yn

defnyddio'i blatfformau cyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd ar-lein a dulliau digidol hyd gorau ei allu i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## 8. <u>GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL</u>

8.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma.

## 9. <u>GOBLYGIADAU CYFREITHIOL *NEU* DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL</u>

9.1 Mae'r ddeddfwriaeth/rheoliadau canlynol yn cyd-fynd â'r Adroddiad yma:

1. Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## 10. <u>CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL</u>

10.1 Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gysylltiedig â Chynllun Corfforaethol CBSRhCT, yn benodol mewn perthynas â'r flaenoriaeth ganlynol:

- Ffyniant: Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.
    - Sicrhau bod gyda ni ysgolion da fel bod modd i bob plentyn gael addysg wych.

10.2 Bydd rhoi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith yn cyfrannu at gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae sylw dyledus wedi'i roi i'r Pum Dull o Weithio, sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf honno.

## 11 <u>CASGLIAD</u>

11.1 Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael i bob disgybl ni waeth beth yw eu hanghenion fel disgybl, o'r blynyddoedd cynnar, trwy'r ysgol gynradd ac uwchradd, ac ymlaen at addysg bellach ac addysg uwch. Mae hyn yn cyd-fynd â'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn nogfen 'Cymraeg 2050'.

11.2 Gofynnir i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg roi adborth i gynorthwyo'r Cabinet yn eu trafodaethau.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

**FEL SY WEDI'I DIWYGIO GAN**

**DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**8 Rhagfyr 2021**

**CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG - DRAFFT ADRODDIAD AR Y CYD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A'R CYFARWYDDWR ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT**

**Swyddog Cyswllt: Sarah Handy, Uned Busnes y Cyngor**